



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar
syfer Datblygu Gwledig
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for
Rural Developments
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Glastir

Glastir - Tir Comin 2020/2021

Llyfryn Rheolau Cyffredinol



Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru –
Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru

2014-2020

CYNNWYS

Rhif y dudalen

Adran A - Cyflwyniad

Cyflwyniad 4

Adran B - Pwy sy'n Gymwys

Tir Cymwys 5

Tir Anghymwys 6

Adran C - Gofynion y Cynllun

Cofnodion i'w cadw gan Gymdeithas Bori 8

Cod Glastir - Tir Comin 10

Opsiynau Rheoli Tir Comin 14

Opsiwn 1: Rheoli Lefelau Stocio 14

Opsiwn 2: Cyfnod Caeëdig y Gaeaf 17

Adran D - Hawlio Taliad

Hawlio Taliad 18

Adran E - Gwybodaeth Gyffredinol

Newid Rheolau'r Cynllun 19

Cosbau 19

Tanddatgan 19

Gorddatgan 20

CYNNWYS

Gorddatgan yn fwriadol	20
Torri'r Contract	21
Archwiliadau a Monitro	21
Cadw Cofnodion	22
Force Majeure ac Amgylchiadau Eithriadol	22
Apelio	23
Deddf Diogelu Data	24

Adran F - Atodiadau

Atodiad 1	Lefelau Stocio ar Dir Comin ar Dir Uchel	30
Atodiad 2	Lefelau Stocio ar Dir Comin Llawr Gwlad	31
Atodiad 3	Adnabod Ceffylau a Merlod Lled-Wyllt Cymru	33
Atodiad 4	Enwau Siroedd Cofrestru'r Tiroedd Comin	35
Atodiad 5	Manylion Cysylltu Swyddfeydd Rhanbarthol Llywodraeth Cymru	36

ADRAN A: CYFLWYNIAD

Mae tir comin yng Nghymru'n bwysig o safbwynt amaethyddol, amgylcheddol, hamddena a diwylliannol. Mae'n rhan bwysig o'n traddodiad ffermio, yn enwedig fel adnodd pori ac mae iddo rôl allweddol o ran rheoli cynefinoedd a thirweddau pwysig.

Mae contract yr Eifen Tir Comin yn gcontract pum mlynedd i ymgeiswyr sydd â hawliau tir comin ac sydd wedi dod ynghyd i ffurfio Cymdeithas Bori. Gall fod ar gael hefyd ar gyfer tir sydd heb ei amgáu, sy'n cael ei bori gan fwy nag un porwr yr un pryd ac sydd â nodweddion tir comin (e.e. tir uchel heb ei amgáu, tir pori garw ac ati) ond nad yw'n dir comin swyddogol. Mae'r ymgeisydd yn cael dewis un o ddau opsiwn, naill ai i reoli yn ôl lefel stocio neu i beidio â phori am gyfnod dros y gaef.

Ariennir Glastir Tir Comin gan Lywodraeth Cymru a'r Comisiwn Ewropeaidd i ffurfio rhan o raglen Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020.

Rheolir Glastir Tir Comin gan Reoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) 2014 rhif 3222 (Cy327); Rheoliadau (EU) rhifau 1305/2013, 1303/2013 a 1306/2013 y Cyngor, Rheoliadau Gweithredu (EU) rhifau 808/2014 a 809/2014 y Comisiwn a Rheoliadau Dirprwyedig (EU) 640/2014 ac 807/2014 (fel y'u diwygir o dro i dro) y Comisiwn. Cewch gopiâu o'r Rheoliadau hyn ar wefan EUR-Lex (eur-lex.europa.eu) neu gallwch ofyn i'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid Taliadau Gwledig Cymru am gopi.

Ni all Llywodraeth Cymru warantu na chaiff rheolau Glastir (sy'n deillio o ddeddfau Ewropeaidd) ac a ddisgrifir yn y llyfr hwn eu newid. Bydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi unrhyw newidiadau yn Gwlad, ar ei gwefan a lle bo angen, bydd yn cysylltu ag ymgeiswyr unigol.

ADRAN B: PWY SY’N GYMWYS

Rhaid i ymgeiswyr Glastir - Tir Comin fodloni’r holl amodau isod:

- Bydd y Gymdeithas Bori wedi’i chofrestru fel cwsmer gyda Llywodraeth Cymru a bydd wedi cael Cyfeirnod Cwsmer (CRN).
- Rhaid cofrestru gyda RPW Ar-lein.
- Bydd yr holl dir cymwys wedi’i gofrestru ar System Adnabod Parseli Tir (LPIS) Llywodraeth Cymru.
- Bydd gennych o leiaf 3 hectar o dir cymwys. Darllenwch y paragraff am dir cymwys a thir anghymwys isod.
- Byddwch wedi ffurfio Cymdeithas Bori ag iddi statws cyfreithiol, cyn llofnodi contract Glastir – Tir Comin. Gweler Atodiad 5 ynghylch Cymdeithasau Pori.
- Bydd o leiaf 80% o’r porwyr actif ar y tir a ddaw o dan Glastir - Tir Comin yn aelodau o’r Gymdeithas Bori.
- Ni fyddant wedi gwneud niwed amgylcheddol.

Tir Cymwys

Mae’r tir canlynol yn gymwys i ddod yn rhan o Glastir - Tir Comin:

- Tir sydd wedi’i gofrestru’n gyfreithlon fel tir comin o dan Ddeddf Cofrestru Tir Comin 1965 ac sy’n cael ei ddefnyddio gan fwy nag un porwr.
- Tir heb ei amgáu sy’n cael ei bori gan fwy nag un porwr yr un pryd ac sydd â nodweddion tir comin (e.e. tir uchel heb ei amgáu, tir pori garw ac ati) ond nad yw wedi’i gofrestru o dan Ddeddf Cofrestru Tir Comin 1965. Caiff y penderfyniad p’un ai i gynnwys neu wrthod y tiroedd hyn ei wneud bob yn un ar ôl asesiad technegol gan Lywodraeth Cymru.

Yn y ddogfen hon, byddwn yn cyfeirio at unrhyw dir ddaw o dan contract Glastir - Tir Comin fel “tir y contract”.

ADRAN B: PWY SY’N GYMWYS

Tir Anghymwys

Nid yw'r tir canlynol yn gymwys i ddod o dan Glastir - Tir Comin:

- Tir sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau anamaethyddol, gan gynnwys tir wedi'i ddatblygu, safleoedd carafannau sefydlog, meysydd parcio, meysydd carlamu, meysydd awyr, tir sy'n cael ei ddefnyddio fel storfa barhaol, adeiladau a buarthau, arwynebau caled, pyllau dŵr, heolydd, sgri/craig/meini, traciau heb eu pori, cyrsiau golff a chyfleusterau chwaraeon eraill.
- Tir comin sydd o dan reolaeth un porwr actif. Er enghraifft, rhan o dir comin cofrestredig sy'n cael ei defnyddio gan un porwr, sef yr unig un sydd â hawliau pori 'actif' ac sy'n defnyddio'r hawliau hynny. Rhaid i'r tir hwn fynd o dan Glastir Sylfaenol.
- Rhan o barsel cae.
- Tir y tu allan i Gymru.
- Tir nad oes gennych reolaeth arno am 5 mlynedd.
- Tir sy'n rhan o gytundeb rheoli arall a fyddai'n golygu'ch bod yn cael eich talu ddwywaith.

Mae'r tabl isod yn dangos y nodweddion anghymwys parhaol chewch chi **ddim** taliad arnynt trwy Glastir - Tir Comin **ond a fydd wedi'u cynnwys** yng nghontract Glastir - Tir Comin:

Enw'r nodwedd Parhaol	Cod Defnyddio Tir
Gweithgareddau anamaethyddol	NO1
Adeiladau / Buarthau	ZZ89
Arwynebau caled	ZZ92
Pyllau dŵr	ZZ30
Heolydd	ZZ94
Sgri / Craig / Brigiad / Meini / Tywod	ZZ40
Traciau (heb eu pori)	ZZ97

ADRAN C: GOFYNION Y CYNLLUN

Rhaid i ddeiliaid contract Glastir Tir Comin fodloni'r meini prawf cymhwysedd canlynol:

- Rhaid cadw at y safonau Trawsgydymffurfio. Ewch i wefan Llywodraeth Cymru https://llyw.cymru/trawsgydymffurfio?_ga=2.176232997.1291337106.1582538814-916196719.1558429378 neu holwch eich Swyddfa Ranbarthol i weld manylion Trawsgydymffurfio.
- Rhaid cadw at y Cod Glastir - Tir Comin.
- Rhaid cynnal yr opsiwn rheoli a ddisgrifir yng nghontract Glastir - Tir Comin.
- Bydd tir y contract o dan reolaeth lwyr yr ymgeiswyr er mwyn iddynt allu ysgwyddo ymrwymadau'r contract.
- Os nad oes ffiniau ffisegol i dir y contract, rhaid bod ffin y tir yn weladwy o dddechrau'r contract. Mater i'r Gymdeithas Bori yw penderfynu sut orau i farcio ffiniau allanol tir y contract, er enghraifft, torri rhimyn o dyfiant neu gosod marciau fel cerrig neu byst. Nid oes gofyn penodol ynghylch pellter y marciau hyn oddi wrth ei gilydd ond rhaid bod modd gweld un o'r llall. O dan rai amgylchiadau, bydd gofyn ymgynghori â sefydliadau fel Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Parciau Cenedlaethol neu Awdurdodau Lleol cyn marcio ffin tir y contract. Er enghraifft, bydd angen caniatâd CNC os ydy'r tir wedi'i ddynodi'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.
- Rhaid i o leiaf 80% o'r porwyr actif ar dir y contract fod yn aelodau gydol cyfnod y contract.

Mae porwr actif yn golygu:

- Cominwyr sydd â hawliau pori ac sy'n troi stoc allan i bori ar y tir comin;
- Cominwyr nad ydynt yn defnyddio'u hawliau pori ar y comin am eu bod wedi cytuno i dynnu eu stoc o'r comin fel rhan o gytundeb rheoli;
- Cominwyr sydd newydd roi'r gorau i ddefnyddio'u hawliau pori ar y comin, er enghraifft. Oherwydd mesurau rheoli yn sgil clwy'r traed a genau;
- Pobl sy'n pori tir sydd heb ei gofrestru na'i amgáu, ond sydd yn ôl y dyffiniad yn y llyfryn hwn, yn dir sy'n gymwys i fod yn rhan o'r cynllun.

- Rhaid i Gymdeithasau Pori sydd wedi dewis yr Opsiwn Rheoli Lefel Stocio gadw dyddiadur stocio dyddiol ar daenlen (spreadsheet) o symudiadau'r stoc i ac o dir y contract. Darllenwch yr Adran isod am y gofynion o ran cadw cofnodion.

ADRAN C: GOFYNION Y CYNLLUN

- Rhaid i Gymdeithasau Pori sydd wedi dewis Opsiwn Cyfnod Caeëdig y Gaeaf gadw dyddiadur stocio ar daenlen (spreadsheet) sy'n dangos pryd mae'r da byw yn cael eu symud oddi ar dir y contract ar ddechrau cyfnod caeëdig y gaeaf a phryd mae'r da byw yn cael eu symud yn ôl i dir y contract. Darllenwch yr adran isod am gadw cofnodion.
- Rhaid cadw cofnod ar daenlen (spreadsheet) o fanylion yr aelodau a phorwyr actif eraill tir y contract. Darllenwch yr Adran isod am y gofynion o ran cadw cofnodion.

Cofnodion i'w Cadw gan Gymdeithas Bori

Bydd gofyn i bob Cymdeithas Bori gadw dyddiadur stocio dyddiol (ar daenlen/spreadsheet). Bydd yn rhaid ei gyflwyno bob blwyddyn cyn cael taliad; ei ddangos yn ystod archwiliad a'i ddarparu pan fydd Llywodraeth Cymru neu swyddog awdurdodedig yn gofyn amdano. Bydd yn dystiolaeth bod y lefel stocio'n cael ei gadw o fewn y terfynau. Bydd gofyn i'r dyddiadur ddangos hefyd symudiadau anifeiliaid y porwyr nad ydynt yn aelodau o'r Gymdeithas Bori. Os nad yw'r Gymdeithas Bori wedi cytuno â phorwyr nad ydynt yn aelodau sut i gofnodi da byw, rhaid rhagdybio y bydd porwyr nad ydynt yn aelodau yn defnyddio'u hawliau pori yn llawn. Rhaid felly cofnodi o leiaf holl hawliau pori'r porwyr hynny yn y dyddiadur stocio bob dydd o'r flwyddyn.

Mae templed ar gyfer cadw'r cofnodion gofynnol ar gael ar gyfer Cymdeithasau Pori trwy wefan RPW

https://llyw.cymru/glastir?_ga=2.176889381.1291337106.1582538814-916196719.1558429378

Bydd gofyn i Gymdeithasau Pori sydd wedi dewis yr opsiwn rheoli lefel stocio gadw at y gofynion canlynol:

Rhaid i Fanylion Aelodau'r Gymdeithas Bori gynnwys:

- Enwau'r porwyr actif sy'n aelodau o'r Gymdeithas Bori.
- Enwau'r porwyr nad ydynt yn rhai actif sy'n aelodau o'r Gymdeithas Bori.
- Porwyr actif nad ydynt yn aelodau o'r Gymdeithas Bori.

- Pryd bydd aelodau'n ymuno ac yn gadael y Gymdeithas Bori (ers cychwyn y contract).

ADRAN C: GOFYNION Y CYNLLUN

Rhaid i'r Dyddiadur Stocio:

- Ddangos union nifer y da byw ar dir y contract ar unrhyw ddiwrnod yn y flwyddyn galendr (gwneir hynny trwy gofnodi symudiadau'r stoc trwy'r flwyddyn)
- Dangos symudiadau stoc yr holl borwyr actif unigol i ac o dir y contract.
- Dangos symudiadau stoc i ac o dir y contract, gan gynnwys symudiadau da byw pobl nad ydynt yn perthyn i'r Gymdeithas Bori.
- Cofnodi anifeiliaid yn ôl eu categori (e.e. mamogiaid sych, ŵyn blwydd) fel bod ffactorau da byw yn cael eu hystyried. Os na fydd cofnod o gategori o anifail, bydd Llywodraeth Cymru'n cymryd mai'r uned uchaf a gedwir.

Bydd gofyn i Gymdeithasau Pori sydd wedi dewis opsiwn Cyfnod Caeëdig y Gaeaf gadw at y gofynion canlynol:

Rhaid i Fanylion Aelodau'r Gymdeithas Bori gynnwys:

- Enwau'r porwyr actif sy'n aelodau o'r Gymdeithas Bori.
- Enwau'r porwyr nad ydynt yn rhai actif sy'n aelodau o'r Gymdeithas Bori.
- Porwyr actif nad ydynt yn aelodau o'r Gymdeithas Bori.
- Pryd bydd aelodau'n ymuno ac yn gadael y Gymdeithas Bori (ers cychwyn y contract).

Rhaid i'r Dyddiadur Stocio, ar gyfer pob porwr, ddangos:

- Pryd mae'r da byw yn cael eu symud oddi ar dir y contract ar ddechrau cyfnod caeëdig y gaeaf.
- Pryd mae'r da byw yn cael eu symud yn ôl i dir y contract ar ddiwedd cyfnod caeëdig y gaeaf.

ADRAN C: GOFYNION Y CYNLLUN

Cod Glastir - Tir Comin

Rhaid i bob Cymdeithas Bori gadw at God Glastir - Tir Comin. Cofiwch fod rhai o'r gofynion isod yn safonau Trawsgydymffurfio hefyd:

- Cadwch yr holl ffiniau traddodiadol gan gynnwys cloddiau, waliau cerrig, perthi/gwrychoedd a ffensys llechi.
- Cadwch bob nodwedd archeolegol a hanesyddol gan gynnwys gwrthgloddiau, meini hirion, bryngaerau, tomenni claddu, cylchoedd cytiau, corlannau a chuddfannau hela grugieir.
- Cadwch bob safle daearegol a nodwedd craig gan gynnwys pob clogwyn, brigiad, sgri a graean.
- Peidiwch â gosod draeniau nac agor ffosydd newydd na newid/ailagor draeniau a ffosydd sy'n bod eisoes.
- Peidiwch â thorri na chodi mawn na gwaddodion oni bai bod gan yr ymgeisydd yr hawl i wneud hynny.
- Peidiwch â rhigoli'r pridd trwy ddefnyddio peiriannau mewn ffordd anaddas.
- Rhaid cadw at y Rheoliadau Llosgi Grug a Phorfa wrth losgi. Peidiwch â llosgi gorgors. Rhaid cael caniatâd Cyfoeth Naturiol Cymru cyn llosgi ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Ardal Cadwraeth Arbennig neu Ardal Gwarchod Arbennig.
- Cadwch unrhyw goetir a phrysgwydd brodorol, pyllau, crafiadau, afonydd a nentydd.
- Ni chaniateir aredig, trin nac ailhau tir ac eithrio tir pori neu â'r wedi'i wella.
- Ni chaniateir gwasgaru calch, gwrtaith anorganig nac organig (gan gynnwys tail a slag) ac eithrio ar dir pori neu â'r wedi'i wella.
- Cydymffurfiwch â'r gyfraith o ran yr hawliau tramwy sydd ar y tir. Peidiwch â'u cau na rhoi rhwystr arnynt. Rhaid caniatáu mynediad ar droed ar bob tir sydd yn ôl y mapiau a baratowyd o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 ar gael at y diben hwnnw.
- Cydymffurfiwch â'r gofynion o ran rhoi porthiant atodol i anifeiliaid ar holl dir y contract. Darllenwch yr Adran am borthi atodol isod.

ADRAN C: GOFYNION Y CYNLLUN

Porthi Atodol

Dim ond o dan amgylchiadau penodol neu eithafol y cewch roi porthiant atodol i'ch stoc. Disgrifir yr amgylchiadau hynny isod. Os oes yn rhaid rhoi porthiant atodol, mae'n bwysig gwneud hynny heb niweidio'r llystyfiant, y pridd na'r cyrsiau dŵr. Mae niwed o'r fath yn cynnwys gorbori:

- Gorwrteithio'r pridd;
- Cyfoethogi maethynnau;
- Sathru'r llystyfiant,
- Stablad (gorsathru) y pridd gan anifeiliaid pori neu ei rigoli gan gerbydau sy'n cario bwyd i'r anifeiliaid;
- Erydu'r pridd a llygru dŵr.

Caniateir rhoi porthiant atodol i anifeiliaid os byddai peidio â gwneud hynny yn peryglu eu lles. Tywydd drwg a diffyg bwyd i anifeiliaid beichiog iawn yw'r sbardunau tebygol ar gyfer rhoi porthiant atodol i stoc.

Mae tywydd drwg yn golygu cyfnod pan fydd y llystyfiant wedi'i orchuddio gan eira neu'n dioddef cyfnod hir o rew caled, sychder neu law trwm. Caniateir porthi atodol os ydy'r borfa sydd ar gael i anifeiliaid yn ystod y cyfnod o dywydd cas yn mynd yn brin iawn, cyn belled â bod y porthiant yn cael ei roi heb niweidio'r amgylchedd ac nad oes perygl i les y da byw.

Bydd angen porthi'ch anifeiliaid pan na fydd y borfa sydd ar gael, o ran ei swm neu/na'i ansawdd, yn ateb gofynion maeth yr anifeiliaid pori. Gallai hynny godi yn achos mamogiaid sy'n drwm gan oen neu sydd newydd ŵyna ac sydd felly ag angen mwy o faeth nag arfer arnynt, pan fydd lefelau stocio'n uchel a/neu pan fydd mwy o ŵyn nag arfer yn cael eu geni. O dan rai amgylchiadau, gallwch osgoi'r angen am borthi atodol ar dir comin trwy ostwng y lefelau stocio ac yn achos defaid, trwy fynd â mamogiaid trwm gan ŵyn (tua 8 wythnos cyn ŵyna) o'r comin, yn enwedig os ydyn nhw'n disgwyl mwy nag un oen.

ADRAN C: GOFYNION Y CYNLLUN

Prif ofynion:

Dim ond porthiant o'r rhestr ganlynol y cewch ei ddefnyddio ar Dir y Contract a dylai'r swm a fwydwch fod yn addas i'r math o anifail sy'n cael ei fwydo:

- Gwair (i'w wasgaru)
- Gwywair (porfa wedi'i ladd ag o leiaf 60% ohono'n ddeunydd sych) (i'w wasgaru)
- Bwyd cyfansawdd
- Betyd siwgr sych (ar ffurf cêc); ond nid lle gall ceffylau fynd at y bwyd
- Plociau bwydo a bwyd gwlyb mewn cynwysyddion addas

Wrth roi dwysfwyd, gofalwch fod yr holl anifeiliaid yn gallu cael at y bwyd a'i fwyta i gyd yr un pryd.

- Bwydwch eich anifeiliaid mewn lle gwahanol bob dydd.
- Wrth ddewis ble i fwydo'ch anifeiliaid, mae'n bwysig iawn eich bod yn osgoi llystyfiant sy'n sensitif i niwed ac i orwrteithio. Llystyfiant fel:
 - gorgors,
 - grug,
 - llus a chorlwyni eraill,
 - glaswelltir cyfoethog ei rywogaethau,
 - coetir llydanddail brodorol (lle mae mwy na 50% o'r coetir yn goed brodorol)
 - a chorsydd.
- Peidiwch â bwydo'ch anifeiliaid ar safleoedd archeolegol, llethrau serth na llwybrau cyhoeddus nac wrth eu hymyl. Gofalwch fod o leiaf 10m rhwng y safle bwydo a chwrs dŵr.
- Peidiwch byth â defnyddio cafnau bwyd na rheseli bêls ('bale feeders') ar dir y contract.
- Ewch ag unrhyw blastig o'r comin ar ôl gwasgaru'r bwyd.

ADRAN C: GOFYNION Y CYNLLUN

Cyfyngiadau Eraill

Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol y gallai fod cyfyngiadau ar borthi atodol:

- Fel rhan o amod dynodiad statudol e.e. SoDdGA;
- Gan berchennog y tir;
- Trwy arfer, yn ôl amodau Cymdeithas y Cominwyr.

ADRAN C: GOFYNION Y CYNLLUN

Opsiynau Rheoli Tir Comin

Opsiwn 1: Rheoli lefelau Stocio

Mae rheoli lefelau stocio yn golygu cynnal lefel stocio gynaliadwy gydol y flwyddyn ar y tir fydd yn dod o dan y contract. Bydd yn cynnwys lwfans ar gyfer ei bori yn y gaeaf.

Er mwyn pennu'r lefel stocio gynaliadwy ar gyfer y tir comin, bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio gwybodaeth o Arolwg Ucheldiroedd Cam 1 y Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol i nodi'r planhigion ar y comin ac i fesur arwynebedd y cynefinoedd. Defnyddir yr wybodaeth i gyfri'r lefel pori uchaf ar gyfer y comin cyfan, ar sail y lefelau stocio a ganiateir ar bob cynefin unigol. Mae Atodiadau 1 a 2 yn dangos y mathau o gynefin a lefelau stocio'r cynefinoedd hynny fesul hectar mewn Unedau Da Byw (UDB).

Gall y Gymdeithas Bori gadw naill ai at y lefel stocio safonol neu'r lefel stocio Hyblyg:

a. Y Lefel Stocio Safonol

Caiff lefelau stocio uchaf y dull rheoli hwn eu cyfrif fesul cyfnodau o bedwar mis. Bydd y Gymdeithas Bori yn ymrwmo i gadw'r lefel stocio uchaf chwarterol neu lai bob dydd yn ystod y chwarter. Sylwch nad cyfartaledd yw'r lefelau stocio hyn, ond y nifer uchaf y cewch eu cadw ar unrhyw ddiwrnod.

Dyma'r cyfnodau chwarterol:

- 1 Ionawr i 31 Mawrth
- 1 Ebrill i 30 Mehefin
- 1 Gorffennaf i 30 Medi
- 1 Hydref i 31 Rhagfyr

ADRAN C: GOFYNION Y CYNLLUN

Mae'r tabl isod yn dangos y ffactor trosi y dylech ei defnyddio:

Da Byw	Unedau Da Byw (UDB)
Oen blwydd	0.09
Oen benyw/gwryw	0.09
Mamog ag oen	0.15
Mamog sych (gan gynnwys mamog gyfoen)	0.12
Hwrdd	0.12
Gwartheg hyd at 6 mis	0.00
Gwartheg dros 24 mis	1.0
Gwartheg 6 i 24 mis	0.6
Ceffyl	1.0
Merlyn	0.5
Ebol	0.00

Bydd gofyn i'r Gymdeithas Bori roi'r dyddiadau pan fydd am symud ei stoc i ac o dir y contract (dyddiadau troi allan a chrynhoi).

ADRAN C: GOFYNION Y CYNLLUN

Opsiwn 2: Cyfnod Caeëdig Dros y Gaeaf

Rhaid i'r Gymdeithas Bori gymryd yr holl dda byw oddi ar y comin am gyfnod penodedig o 90 diwrnod o'r bron rhwng 1 Tachwedd a 31 Mawrth bob blwyddyn. Os bydd y Gymdeithas Bori am newid dyddiad cychwyn y cyfnod caeëdig yn y dyfodol, rhaid iddi roi gwybod i Lywodraeth Cymru trwy lythyr o leiaf 28 diwrnod cyn cychwyn y cyfnod di-stoc.

Mae'r rheol hon wedi'i llacio mewn perthynas â 'merlod Mynydd Cymreig Adran A lled-wyllt' sy'n cael eu rheoli gan Gymdeithas Gwella Merlod Mynydd Cymru a Chymdeithas Merlod y Carneddau ar y comin dros y cyfnod hwn. Am fwy o wybodaeth gefndir am hyn a'r Rheoliadau Pasbortau Ceffylau (Cymru) 2005, fel y'i diwygiwyd, darllenwch Atodiad 3 'Adnabod Ceffylau a Merlod Lled-wyllt Cymru'.

ADRAN D: TALIAD

Mae Gymdeithas Bori'r gofyn gyflwyno ffurflen hawlio bob blwyddyn gan RPW Ar-lein yn unol â dyddiad cau'r SAF, sef 15 Mai.

Os ydy manylion y contract wedi newid ers ei lunio, rhaid i'r Gymdeithas Bori gysylltu â'r Llwodraeth Cymru ar unwaith er mwyn gofalu bod yr contract yn gywir.

Rhaid i'r Gymdeithas Bori hefyd gyflwyno dyddiadur stocio i'r 14 Ionawr (dyddiad yn amodol ar newid) sy'n dangos y lefelau stocio'r 12 mis blaenorol.

Cyn talu, caiff archwiliadau gweinyddol eu cynnal ar ôl cyflwyno dyddiadur stocio dyddiol y Gymdeithas Bori.

Cewch eich talu, cyn belled â bod yr ymrwymadau sy'n ffurfio'ch contract yn cael eu dilysu.

Cyfraddau Talu

Taliad	Cyfradd Dalu/Hectar
Rheoli Tir	£34.00
*Costau trafodion - hyd at 500ha	£6.00

*Costau ar gyfer sefydlu a rhedeg y Gymdeithas Bori yw'r costau trafodion. Er mwyn cael y costau ychwanegol hyn, bydd eich Cymdeithas Bori wedi'i chreu'n unswydd at ddiben Glastir - Tir Comin.

Cyfanswm yr arwynebedd cymwys y telir taliad arno bob blwyddyn fydd cyfanswm yr arwynebedd ar fap o dir y contract, heb gynnwys nodweddion parhaol anghymwys Glastir.

Bydd yr arian yn cael ei dalu i'r Gymdeithas Bori oni bai bod y Gymdeithas Bori yn gofyn bod y porwyr actif unigol yn cael eu talu'n uniongyrchol. Ond bydd y gwaith ychwanegol i dalu unigolion yn golygu y bydd angen mwy o amser arnom i brosesu taliadau. Er y gall y Gymdeithas Bori ddewis bod unigolion yn cael eu talu, bydd y contract yn dal i fod yn enw'r Gymdeithas Bori. Bob blwyddyn, caiff datganiad talu ei anfon at bob Cymdeithas Bori. Bydd hwnnw'n cynnwys manylion unrhyw dramgwyddau, cosbau neu adenillion fydd yn cael eu tynnu o'r taliad.

ADRAN E - GWYBODAETH GYFFREDINOL

Newid rheolau'r Cynllun

Weithiau, bydd angen i Lywodraeth Cymru newid y contract, er enghraifft, i newid rheolau'r cynllun i adlewyrchu newidiadau i Gynllun Datblygu Gwledig Cymru neu i newid cyfraddau talu. Bydd Llywodraeth Cymru'n rhoi cyhoeddusrwydd i'r newidiadau hyn yn Gwlad.

Cosbau

Cewch eich cosbi os byddwch yn gorddatgan neu'n tanddatgan tir, os caiff rheolau'r cynllun eu torri neu pan na fyddwch wedi dilyn y gofynion trawsgydymffurfio.

Tanddatgan

Os na fyddwch yn datgan holl dir y contract wrth hawlio taliad, gallai taliadau'r Cynllun Datblygu Gwledig a'r Cynllyn Cymorth y Taliad Sylfaenol i'r Gymdeithas Bori gael eu lleihau.

Os oes gwahaniaeth rhwng yr arwynebedd yr ydych yn ei ddatgan a chyfanswm arwynebedd tir y contract y dylech fod wedi'i ddatgan, bydd taliadau'r cynlluniau'n cael eu lleihau fel a ganlyn:

Gwahaniaeth	Lleihad
Hyd at 3%	Dim lleihad
Mwy na 3% a hyd at 20%	1% o leihad yn y taliad
Mwy na 20% a hyd at 50%	2% o leihad
Mwy na 50%	3% o leihad

ADRAN E - GWYBODAETH GYFFREDINOL

Gorddatgan

Os gwelir bod arwynebedd y grŵp cnydau'n fwy na'r hyn sydd wedi'i ddatgan, yr arwynebedd sydd wedi'i ddatgan fydd yn cael ei ddefnyddio i gyfri'r taliad. Fel arfer, dim ond taliadau'r cynllun y digwyddodd y gorddatgan ynddo fydd yn cael eu lleihau. Os bydd y gorddatgan yn arwain at gario cosb ymlaen i'r flwyddyn ganlynol, gallai taliad unrhyw gynllun i'r Gymdeithas Bori gael ei leihau.

Grwpiau cnydau yw darnau o dir sy'n derbyn yr un gyfradd Gymorth

Os bydd y gwahaniaeth rhwng yr arwynebedd sydd wedi'i ddatgan fwy na 3% neu 2 hectar, ond ddim fwy nag 20% yn fwy na'r arwynebedd sydd wedi'i weld (mewn archwiliad) ar gyfer grŵp cnydau, bydd yr arwynebedd sy'n gymwys am daliad yn cael ei leihau o ddwywaith y gwahaniaeth.

Os bydd y gwahaniaeth yn fwy nag 20% o'r gwir arwynebedd (sydd wedi'i weld), ni chaiff y ffermwr daliad ar gyfer y grŵp cnydau dan sylw.

Os bydd yr arwynebedd sy'n cael ei ddatgan fwy na 50% yn fwy na gwir arwynebedd y grŵp cnydau, yn ogystal â pheidio â chael ei dalu, bydd hawliad y ffermwr yn y flwyddyn galendr nesaf yn cael ei leihau o swm sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng yr arwynebedd gafodd ei ddatgan a'r arwynebedd gafodd ei weld.

Os na fydd modd cymryd y swm cyfan o daliadau'r flwyddyn galendr nesaf, bydd y gweddill yn cael ei gymryd o daliadau'r ddwy flynedd wedi hynny, yn ôl y gofyn. Os bydd yn rhaid lleihau'r taliad yn y tair blynedd ar ôl y gorddatgan, gellir ei gymryd o unrhyw daliad sy'n ddyledus i'r Gymdeithas Bori.

Gorddatgan yn Fwriadol

Os byddwch yn fwriadol yn gorddatgan tir o fewn grŵp cnydau, ni chewch daliad y flwyddyn honno os ydy'r gwahaniaeth rhwng yr arwynebedd sydd wedi'i ddatgan a'r arwynebedd sy'n cael ei weld yn fwy na 0.5% o'r gwir arwynebedd neu'n fwy na 1 hectar.

Os bydd y gwahaniaeth yn fwy nag 20% o'r arwynebedd o fewn yr un grŵp cnydau, ni chaiff y ffermwr ei dalu'r flwyddyn honno. Yn ogystal, bydd taliadau yn y flwyddyn galendr nesaf yn cael eu lleihau o swm yr un faint â'r gwahaniaeth rhwng cyfanswm yr arwynebedd gafodd ei ddatgan a'r arwynebedd gafodd ei weld.

ADRAN E - GWYBODAETH GYFFREDINOL

Gallai gwneud datganiad ffug yn fwriadol neu'n ddi-hid arwain at achos troseddol. Y ddedfryd fwyaf fydd dirwy heb gyfyngiadau neu ddwy flynedd o garchar.

Torri'r Contract

Bydd cosb yn cael ei rhoi am dorri contract. Cynhelir archwiliadau gweinyddol ac ar y fferm, ac os gwelir eich bod wedi torri amodau, cewch wybod trwy lythyr. Bydd maint y gosb neu'r gwaharddiad yn dibynnu ar ba mor ddifrifol, mawr a pharhaol oedd lefel yr esgeulustod neu'r bwriad.

Bydd cosbau'n cael eu rhoi hefyd ar daliadau a wnaed ym mlynnyddoedd blaenorol yr ymrwymiad. Mewn sefyllfaoedd difrifol iawn, gellid dod â contract Glastir - Tir Comin i ben a'ch gwahardd rhag ymuno â chynllun amaeth-amgylcheddol arall am hyd at ddwy flynedd.

Mae Llywodraeth Cymru yn asesu tramgwyddau yn ôl safonau dilysadwy sy'n cyfateb i'r amodau ar gyfer ymuno â'r cynllun. Mae matrices wedi'i lunio i benderfynu ar lefel y gosb i'w rhoi. Mae'r matrices cosbi i'w weld ar wefan Llywodraeth Cymru <https://gov.wales/glastir>

Archwiliadau a monitro

Mae Llywodraeth Cymru'n gorfod gwneud yn siwr bod rheolau Glastir - Tir Comin, gan gynnwys y rheolau Trawsgydymffurfio, yn cael eu cadw. Bydd archwiliadau'n cynnwys archwiliadau fferm, defnyddio'r Systemau Lleoli Global a lluniau o'r awyr a chan loeren. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am sicrhau bod archwiliadau'n cael eu cynnal a bydd yn gweithio ar y cyd â chyrrff gorfodi arbenigol eraill, fel Asiantaeth yr Amgylchedd, i gynnal archwiliadau Trawsgydymffurfio.

Bydd swyddogion archwilio yn cadarnhau bod y Gymdeithas Bori yn cadw at reolau'r cynllun, gan gynnwys y lefelau stocio ar dir y contract, manylion y tir a chywirdeb y dogfennau a'r cofnodion. Pan fydd angen archwilio anifeiliaid, bydd angen crynhoi'r anifeiliaid i le cyfleus a gwneud yn siwr bod llafur a chyfleusterau digonol ar gael i'w trin.

Bydd archwiliadau'n cael eu cynnal unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn ac yn rhoi sylw i'r holl ymrwymadau a rhwymedigaethau y bydd modd eu harchwilio adeg yr ymweliad. Bydd Llywodraeth Cymru a'r cyrrff rheoli arbenigol yn gwneud eu gorau i sicrhau bod yr ymweliadau'n aflonyddu cyn lleied â phosibl arnoch ond rhaid cynnal rhai archwiliadau heb rybudd. Gall archwiliadau gael eu cynnal fwy nag unwaith mewn blwyddyn.

ADRAN E - GWYBODAETH GYFFREDINOL

Os byddwch yn gwrthod caniatáu archwiliad neu'n rhwystro'r archwilydd neu'n peidio â rhoi cymorth rhesymol, fe allech gollu'ch taliad a chael eich erlyn.

Ar ôl cael gwybod bod archwiliad yn mynd i gael ei gynnal, ni fydd unrhyw geisiadau gan y Gymdeithas Bori i newid y contract yn cael eu hystyried fel rhan o'r archwiliad.

Cadw Cofnodion

Rhaid i'r Gymdeithas Bori:

- Gadw pob anfoneb, cyfrif a dogfen arall sy'n ymwneud â'i hymrwymadau i Glastir - Tir Comin am 6 mlynedd lawn ar ôl taliad olaf y cynllun.
- Rhoi unrhyw wybodaeth i Lywodraeth Cymru am ei hymrwymadau i Glastir - Tir Comin a ofynnir amdani, a'i rhoi o fewn yr amser a bennir gan Lywodraeth Cymru.
- Gofalu bod cofnodion, cyfrifon, derbynebaw a gwybodaeth arall gan gynnwys data cyfrifiadurol sy'n ymwneud ag ymrwymadau Glastir - Tir Comin ar gael i Lywodraeth Cymru a chaniatáu i Lywodraeth Cymru fynd â'r dogfennau neu'r cofnodion hynny a chymryd copïau neu ddarnau ohonynt.

Force majeure ac Amgylchiadau Eithriadol

Bydd Llywodraeth Cymru yn barod i dderbyn y gallai force majeure neu amgylchiadau eithriadol rwystro Gymdeithas Bori rhag cadw at ei hymrwymadau. Os felly, mae'n bosibl na chaiff ei chosbi. Force majeure yw "amgylchiadau anarferol y tu hwnt i reolaeth y ffermwr, na fyddai'r ffermwr er gwaetha' pob gofal wedi gallu osgoi eu canlyniadau heb aberth ormodol". Dyma enghreifftiau o force majeure ac amgylchiadau eithriadol:

- Marwolaeth yr ymgeisydd
- Salwch tymor hir sy'n rhwystro'r ymgeisydd rhag gweithio
- Trychineb naturiol ddifrifol sy'n effeithio'n andwyol ar dir y contract
- Damwain sy'n dinistrio adeiladau da byw ar dir y contract
- Clefyd episootig sy'n effeithio ar y da byw neu rai ohonynt.

ADRAN E - GWYBODAETH GYFFREDINOL

Rhaid rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am y force majeure neu'r amgylchiad eithriadol trwy lythyr o fewn 10 niwrnod gwaith wedi i'r ymgeisydd allu gwneud hynny. Bydd pob cais yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau. Er mwyn i Lywodraeth Cymru allu ei bwysu a'i fesur, rhaid dangos tystiolaeth bendant bod y digwyddiad wedi digwydd. Dylai'r Gymdeithas Bori wneud yn siwr felly ei bod yn rhoi cymaint o dystiolaeth â phosibl gyda'i llythyr i gefnogi ei hachos.

Ar gyfer cynlluniau Datblygu Gwledig, bydd force majeure ac amgylchiadau eithriadol ar gael mewn cysylltiad â'r canlynol:

- Cyflwyno cais yn hwyr
- Yr hawl i daliad ar dir cymwys sydd wedi'i ddatgan ar y SAF ond nad yw ar gael ichi mwyach oherwydd y force majeure/amgylchiadau eithriadol
- Y gofyn i ad-dalu'r arian sydd wedi'i dalu neu ran ohono.

Y drefn apelio

Mae'r 'Broses Apelio Annibynnol ar gyfer Ffermwyr a Choedwigwyr yng Nghymru' yn cynnig trefn apelio annibynnol ichi os ydych yn teimlo nad yw Llywodraeth Cymru wedi dod i benderfyniad cywir yn ôl rheolau cynllun. Bydd y broses yn edrych ar benderfyniadau'n ymwneud â:

- BPS (ac SPS)
- holl gynlluniau Glastir
- problemau a nodwyd ar ôl 1 Ionawr 2007 ar gyfer:
 - Cynllun Coetir Ffermydd
 - Cynllun Premiwm Coetir Ffermydd
 - Y Premiwm Tir wedi'i Wella

Mae'r broses apelio wedi'i rhannu'n ddwy ran:

- **Cam 1:** RPW i adolygu'r achos
- **Cam 2:** Panel Apelio Annibynnol i adolygu'r achos (os byddwch yn anhapus â'r penderfyniad yng Ngham 1).

Mae'r Panel Annibynnol yn gwneud argymhellion i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig a fydd yn penderfynu'n derfynol ar y mater gan ddod â'r broses i ben.

Nid oes tâl am Gam 1 y broses ond codir tâl ar gyfer Cam 2 – £50 am wrandawriad ysgrifenedig a £100 am wrandawriad llafar. Bydd yr arian hwn yn cael ei dalu'n ôl yn llawn os bydd Cam 2 yn llwyddiannus neu'n rhannol lwyddiannus.

ADRAN E - GWYBODAETH GYFFREDINOL

Rhaid i apêl, gan gynnwys y dystiolaeth ategol, gyrraedd o fewn 60 diwrnod ar ôl dyddiad y llythyr sy'n disgrifio'r penderfyniad rydych am apelio yn ei erbyn.

Mae croeso ichi ohebu â ni yn y Gymraeg a byddwn yn ateb unrhyw lythyr yn y Gymraeg os mai honno yw'r iaith sy'n well gennych ei defnyddio. Ni fydd hyn yn arwain at unrhyw oedi.

Er mwyn cael rhagor o wybodaeth am y drefn apelio, cysylltwch â'ch Canolfan Gyswllt i Gwsmeriaid neu ewch i: <https://llyw.cymru/apeliadau-grantiau-thaliadau-gwledig-canllaw>.

Deddf Diogelu Data: Hysbysiad Preifatrwydd

Mae'r hysbysiad hwn yn esbonio sut y bydd Llywodraeth Cymru'n defnyddio'r wybodaeth y byddwch yn ei mewn cysylltiad â'ch cais am gymorth o dan daliad uniongyrchol y Polisi Amaethyddol Cyffredin a chynlluniau Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014 – 2020. Mae'n esbonio hefyd sut y bydd Llywodraeth Cymru'n prosesu ac yn defnyddio'ch data personol a'ch hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol.

Rheolydd data'r wybodaeth yw Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Swyddog diogelu data yr wybodaeth honno yw'r Swyddog Diogelu Data, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ. E-bost: DataProtectionOfficer@gov.wales

Bydd Llywodraeth Cymru'n prosesu ac yn rheoli'r wybodaeth y byddwch yn ei rhoi iddi yn unol â'i hymrwymiaidau a'i dyletswyddau o dan y Rheoliadau Ewropeaidd canlynol:

- Rheoliad y Cyngor (UE) Rhif 1303/2013
- Rheoliad y Cyngor (UE) Rhif 1305/2013
- Rheoliad y Cyngor (UE) Rhif 1306/2013
- Rheoliad y Cyngor (UE) Rhif 1307/2013
- Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 640/2014
- Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 807/2014
- Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 808/2014
- Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 809/2014
- Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 907/2014
- Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 908/2014
- Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (UE) rhif 679/2016

Bydd yr wybodaeth yn cael ei defnyddio gan fwyaf i brosesu am gymorth ariannol. Ond, caiff Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r wybodaeth hefyd at bwrpasau eraill, gan

ADRAN E - GWYBODAETH GYFFREDINOL

gynnwys y rheini sy'n gysylltiedig â'i swyddogaethau a'i dyletswyddau o dan Bolisi Amaethyddol Cyffredin y Gymuned Ewropeaidd a'i hymrwymiaid amgylcheddol statudol.

Sail cyfreithiol y prosesu yw bod ei angen i gyflawni tasg a gynhelir wrth arfer yr awdurdod swyddogol a roddir i Lywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru'n casglu data personol er mwyn gallu nodi'ch lleoliad chi a busnes eich fferm. Nid yw Llywodraeth Cymru'n casglu data categori arbennig.

Prosesir y data trwy broses wedi'i hawtomeiddio o reolau busnes sy'n defnyddio Cyfeirnod y Cwsmer (CRN) fel allwedd i fwyafrif yr adroddiadau.

Caiff eich gwybodaeth ei storio yn unol â Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn rhif 908/2014, "Conservation of Accounting Information".

Rhesymau dros rannu data personol

O dan ddeddfwriaeth yr UE mae'n rhaid sicrhau bod cynllun yn gymwys, ac er mwyn gwneud hyn caiff Llywodraeth Cymru rannu gwybodaeth ag:

- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion
- Y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol
- Awdurdodau Lleol Cymru
- Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru
- DEFRA
- Swyddfeydd Amaeth eraill Llywodraeth y DU

Awdurdodau rheoleiddio, megis Cyllid a Thollau EM, Awdurdodau Lleol, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd, a'r Heddlu.

Yn benodol, defnyddir yr wybodaeth fel a ganlyn:

- croeswiro gwybodaeth a Thrawsgydymffurfio rhwng sefydliadau'r Llywodraeth er mwyn sicrhau nad oes neb yn torri rheolau cynlluniau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin
- cynhyrchu a chyhoeddi mapiau sy'n dangos y tir sydd wedi cael cymorth o dan gynlluniau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin
- llunio adroddiadau o ddata o wahanol ffynonellau a/neu grynodedbau ystadegol, ar gyfer eu cyhoeddi
- llywio penderfyniadau sy'n gysylltiedig â newid polisi a chyllid gan gynnwys astudiaethau sy'n cael eu cynnal ar ran Llywodraeth Cymru i lywio gwaith Monitro a Gwerthuso Cynlluniau Datblygu Gwledig

ADRAN E - GWYBODAETH GYFFREDINOL

- medru cysylltu â thirfeddianwyr/defnyddwyr mewn argyfwng e.e. rheoli clefydau a rheoli tramgwyddau
- diogelu budd ymgeiswyr mewn cadwraeth tir a materion a all godi yn sgil ymholiadau am ariannu
- caniatáu i bartneriaid allu gwneud eu dyletswyddau cyfreithiol
- bydd yr wybodaeth rydym wedi'i chasglu gennych yn cael ei rhannu ag asiantaethau atal twyll a fydd yn ei defnyddio er mwyn atal twyll a gwyngalchu arian ac er mwyn cadarnhau pwy ydych
- cyhoeddi gwybodaeth benodol ac ymateb i geisiadau am wybodaeth.

Cyhoeddi a Datgelu Gwybodaeth

Gall aelod o'r cyhoedd ofyn am gael gweld eich gwybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth bersonol amdanoch. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru ryddhau gwybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth bersonol amdanoch, wrth ymateb l gais o'r fath.

Yn ôl Rheoliad y Comisiwn (CE) rhif 908/2014, rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi manylion y symiau a dalwyd i fuddiolwyr Polisi Amaethyddol Cyffredin. Cyhoeddir data ar gyfer pob buddiolwr ar wefan y gellir chwilio arni, a bydd yn cynnwys enw a lleoliad y ffermwr/rheolwr tir a manylion y symiau ac enw'r cynllun. Ond, ni ddatgelir enwau'r rheini sy'n cael llai na'r hyn sy'n gyfwerth â €1,250 mewn cymorthdaliadau. Cyhoeddir y data bob blwyddyn ar 31 Mai a bydd y data ar gael am ddwy flynedd o'r dyddiad y cawsant eu cyhoeddi. Bydd yr wybodaeth ar gael ar wefan DEFRA yn: www.cap-payments.defra.gov.uk

Hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)

Mae'r GDPR yn rhoi hawliau i unigolion mewn perthynas â'r data personol a gedwir amdanynt. Mae'r hawliau hynny'n cynnwys:

- yr hawl i gael gwybod (yr hysbysiad hwn)
- yr hawl i ofyn a chael copïau o'r data personol sydd gan Lywodraeth Cymru amdanynt, er y gall Llywodraeth Cymru gadw peth data weithiau neu wrthod rhoi copïau
- yr hawl, o dan rai amgylchiadau, i rwystro neu gyfyngu Llywodraeth Cymru rhag prosesu data personol
- yr hawl o dan rai amgylchiadau i ofyn am gywiro gwybodaeth anghywir.
- yr hawl o dan rai amgylchiadau i gael data wedi'u dileu (eu hanghofio)

ADRAN E - GWYBODAETH GYFFREDINOL

Os hoffech arfer unrhyw un o'r hawliau GDPR hyn, cysylltwch â Llywodraeth Cymru yn y cyfeiriad ar ddechrau'r hysbysiad hwn.

Bydd hawl gan unigolion hefyd i ofyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth, sy'n gorfodi ac yn cadw golwg ar y GDPR, farnu a fyddwn, wrth brosesu'ch gwybodaeth bersonol, yn debygol o gadw at amodau'r GDPR. Cysylltwch â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth,
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745 or 0303 123 1113
Wefan: www.ico.gov.uk

ADRAN F - ATODIADAU

Atodiad 1	Lefelau Stocio ar Dir Comin ar Dir Uchel
Atodiad 2	Lefelau Stocio ar Dir Comin Llwr Gwlad
Atodiad 3	Adnabod Ceffylau a Merlod Lled-Wyllt Cymru
Atodiad 4	Enwau Siroedd Cofrestru'r Tiroedd Comin
Atodiad 5	Manylion Cysylltu Swyddfeydd Rhanbarthol Llywodraeth Cymru

ADRAN F - ATODIADAU

Atodiad 1

Lefelau Stocio ar Dir Comin ar Dir Uchel

Gweundir yr ucheldir	
Cynefin â chorlwyni neu dir sydd o dan amod adfer gweundir TG	
Cyfnod	Uchafswm (UDB/Ha)
Ebrill - Mehefin	0.5
Gorffennaf - Medi	0.3
Hydref - Mawrth	0.2

Gorgors a chynefinoedd eraill ar fawnogydd	
Cyfnod	
Ebrill - Medi	0.1
Hydref - Mawrth	0.01

Gorgors wedi'i wella, gyda molinia yn dominyddu	
Cyfnod	
Ebrill - Medi	0.4
Hydref - Mawrth	0.2

Glaswelltir asidig, niwtral a gwlyb heb ei wella	
Cyfnod	
Ebrill - Medi	0.6
Hydref - Mawrth	0.2

Glaswelltir asidig wedi'i led-wella	
Cyfnod	
Ebrill - Medi	0.8
Hydref - Mawrth	0.2

Glaswelltir calchaid	
Cyfnod	
Ebrill - Medi	0.4
Hydref - Mawrth	0.02

Glaswelltir wedi'i wella	
Cyfnod	
Ebrill - Mawrth	1.4

Rhedyn trwchus	
Cyfnod	
Ebrill - Mawrth	0.2

ADRAN F - ATODIADAU

Atodiad 2

Lefelau Stocio ar Dir Comin Llawr Gwlad

Gweundir arfordirol a gweundir tir isel	
Cyfnod	Uchafswm (UDB/Ha)
Ebrill - Mehefin	0.5
Gorffennaf - Medi	0.3
Hydref - Mawrth	0.2

Gorgors a chynefinoedd eraill ar fawnogydd	
Cyfnod	
Ebrill - Medi	0.1
Hydref - Mawrth	0.01

Gorgors wedi'i wella, gyda molinia yn dominyddu	
Cyfnod	
Ebrill - Medi	0.4
Hydref - Mawrth	0.2

Glaswelltir niwtral	
Cyfnod	
Ebrill - Medi	0.75
Hydref - Mawrth	0.3

Glaswelltir asidig a gwlyb heb ei wella	
Cyfnod	
Ebrill - Medi	0.6
Hydref - Mawrth	0.2

Glaswelltir calchaid heb ei wella	
Cyfnod	
Ebrill - Medi	0.4
Hydref - Mawrth	0.2

Glaswelltir asidig a chalchaid wedi'i led-wella	
Cyfnod	
Ebrill - Medi	0.5
Hydref - Mawrth	0.3

Glaswelltir wedi'i wella	
Cyfnod	
Ebrill - Mawrth	1.5

ADRAN F - ATODIADAU

Rhedyn trwchus	
Cyfnod	
Ebrill - Mawrth	0.2

Morfa heli	
Cyfnod	
Ebrill - Mawrth	0.8

Glaswelltir ar dwyni sefydlog	
Cyfnod	
Ebrill - Mehefin	0.2
Gorffennaf - Mawrth	0.6

Gweundir ar dwyni	
Cyfnod	
Ebrill - Medi	0.07
Hydref - Mawrth	0

Glaswelltir arfordirol	
Cyfnod	
Ebrill - Medi	0.5
Hydref - Mawrth	0.3

Atodiad 3

Adnabod Ceffylau a merlod lled-wyllt Cymru

Rheoliadau 2009

Mae Rheoliad (EC) 504/2008 dyddiedig 6 Mehefin 2008 yn ymwneud â cheffylau gwyllt a lled-wyllt. Mae'n caniatáu poblogaethau penodol o geffylau gwyllt neu led-wyllt i aros ar ddarnau penodol o dir heb basbort na meicrosglodyn. Unwaith y bydd yr anifeiliaid yn cael eu symud o'r ardaloedd hyn, bydd angen pasbort a meicrosglodyn arnynt cyn eu bod yn cael symud. Hefyd, mae'r rhanddirymiad yn caniatáu i anifeiliaid o'r ardaloedd penodedig hyn gael eu symud yn syth i ladd-dy cyn belled â bod dull gwyddonol ar waith i warantu adnabod anifail. Mae'r rhanddirymiad yn caniatáu i berchnogion symud yr anifeiliaid sydd dros ben o'r tiroedd comin / y mynyddoedd heb iddynt orfod talu am roi microsglodion, sef cost a allai yn aml fod yn uwch na'r swm a fyddai'n cael ei gynnig am yr ebolion hyn mewn arwerthiant.

Mae dau gais wedi dod i law am rhanddirymiad - gan Gymdeithas Gwella Merlod Mynydd Cymru a Chymdeithas Merlod y Carneddau. Mae'r Gweinidog wedi cytuno i roi'r rhanddirymiad i'r ddwy, mewn egwyddor h.y. cyn belled ag y cedwir at drefniadau rheoli fyddai'n rhoi digon o warant i Lywodraeth Cymru fod modd olrhain y merlod.

Cymdeithasau Gwella Merlod Mynydd

Mae 25 o Gymdeithasau Gwella Merlod Mynydd unigol ar 23 o fryniau a chominau mor bell oddi wrth ei gilydd â Gŵyr, Llanwrtyd, Maesyfed a Blaenau'r Cymoedd. Mae'r holl ferlod sy'n cael eu magu yn yr ardaloedd hyn yn gymwys i gael eu cofrestru gyda Chymdeithas y Merlod a'r Cobiau Cymreig fel Merlod Cymreig Adran A lled-wyllt. Maen nhw'n gweithredu yn unol â'r rheolau a osodwyd gan Gymdeithas y Merlod a Chobiau Cymreig ac maen nhw wedi dod at ei gilydd o dan enw'r Gymdeithas Gwella Merlod Mynydd. Rhaid cadw merlod o fewn yr ardaloedd penodedig, bod yn aelod o'r Gymdeithas Gwella Merlod unigol sydd â hawliau pori ar y comin a rhaid i'r merlod fod yn epil meirch premiwm Cewch fwy o wybodaeth ar wefan Llywodraeth Cymru.

Cymdeithas merlod y Carneddau

Yng Ngogledd Eryri y mae'r Carneddau. Mae tua 150 o ferlod lled-wyllt sy'n eiddo i 7 perchennog gwahanol yn pori yno. Mae'r merlod o'r teip Mynydd Cymreig ond gan nad oes sicrwydd ynghylch eu pedigri, nid ydynt wedi'u cofnodi ar lyfr gre. Daw'r merlod o dan reolaeth Cymdeithas Merlod y Carneddau a arwyddodd gytundeb gyda Rhaglen Tir Eryri i ddiogelu dyfodol merlod Mynydd Abergwyngregyn, Llanllechid a Llanfairfechan am y 5 mlynedd diwethaf. Cewch fwy o wybodaeth ar wefan Llywodraeth Cymru.

ADRAN F - ATODIADAU

Merlod Lled-wyllt Eraill ar Dir Comin

Dim ond merlod perchnogion sy'n perthyn i Gymdeithas Gwella Merlod Mynydd Cymru a Chymdeithas Merlod y Carneddau sy'n dod o dan y rhanddirymiad hwn. Rhaid i ferlod sy'n cael eu cadw ar diroedd comin eraill gydymffurfio â gofynion Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) 2009.

Tiroedd comin lle ceir merlod lled-wyllt sy'n perthyn i aelodau Cymdeithas Gwella merlod mynydd Cymru yn pori arnynt o dan amodau'r rhanddirymiad:

Comin y mynydd Du	Cymdeithas Gwella Merlod y Mynydd Du
Y Bloreus	Cymdeithas Gwella Merlod Blaenafon
Comin Bannau Brycheiniog	Cymdeithas Gwella Merlod Bannau Brycheiniog
Comin Cefn Bryn	Cymdeithas Gwella Merlod Cefn Bryn
Comin Buckland manor	Cymdeithas Gwella Merlod Cefn Edmwnt
Comin Cenydd Gŵyr	Cymdeithas Gwella Merlod Cenydd Gŵyr
Comin Gelligaer a merthyr	Cymdeithas Gwella Merlod Pontlotyn, Cymdeithas Gwella Merlod Mountain Hare a Chymdeithas Gwella Merlod Dowlais
Mynydd y Drum a Bryn Ilwyn madog	Cymdeithas Gwella Merlod y Drum
Comin Epynt, mynydd Epynt a'r Epynt	Cymdeithas Gwella Merlod Epynt
Rhossili Down	Cymdeithas Gwella Merlod Gŵyr
Cefn Hergest a Bryn Hanter	Cymdeithas Gwella Merlod Hergest
Mynydd Abergwesyn, Drygarn Fawr, Comin Penygenhill, Bryn rhudd, Bryn Ilwyn madog, Bryn llysdinam, Comin llanwrthwl a Chomin llanfihangel Brynpabuan	Cymdeithas Gwella Merlod Llanafan a Llanwrthwl
Bryn llandefalle	Cymdeithas Gwella Merlod Llandefalle
Mynydd llandeilo	Cymdeithas Gwella Merlod Llandeilo Graban a Rhiwlen
Comin llangoed	Cymdeithas Gwella Merlod Llangoed
Mynydd llan-gors, Cefn moel, Cathedin Coedcae a Phentir	Cymdeithas Gwella Merlod Llan-gors
Cors llanrhidian (whitford Burrows i benrhyn Croffy)	Cymdeithas Gwella Merlod Llanrhidian
Mynydd Du	Cymdeithas Gwella Merlod Llyn y Fan (Gwynfe)
Comin Trefil Ddu	Cymdeithas Gwella Merlod Mynydd Trefil Ddu a Las
Comin manor mawr	Cymdeithas Gwella Merlod Penderyn
Trefil las	Cymdeithas Gwella Merlod Trefil
Comin mynydd Troed	Cymdeithas Gwella Merlod Mynydd Troed
Comin y Frithwaun	Cymdeithas Gwella Merlod y Faenor

ADRAN F - ATODIADAU

Atodiad 4

Enwau siroedd Cofrestru'r Tiroedd Comin

Bydd tiroedd comin yn cael eu hadnabod wrth Enw'r Sir Gofrestru a rhif y CL.

Enw'r Sir Gofrestru SAESNEG	Enw'r Sir Gofrestru CYMRAEG
ANGLESEY	YNYS MÔN
BRECON	ABERHONDDU
CAERNARFON	CAERNARFON
CARMARTHENSHIRE	SIR GAERFYRDDIN
CASTLEMARTIN MOD	GA CASTELLMARTIN
CEREDIGION	CEREDIGION
CONWY	CONWY
DENBIGH	DINBYCH
FLINT	FFLINT
GWENT	GWENT
MID GLAMORGAN	MORGANNWG GANOL
MERIONETH	MEIRIONNYDD
MONTGOMERY	TREFALDWYN
PEMBROKESHIRE	SIR BENFRO
RADNOR	MAESYFED
SOUTH GLAMORGAN	DE MORGANNWG
SWANSEA	ABERTAWE
WEST GLAMORGAN	GORLLEWIN MORGANNWG
WREXHAM	WRECSAM

ADRAN F - ATODIADAU

Atodiad 5

Manylion Cysylltu Swyddfeydd Rhanbarthol Llywodraeth Cymru:

Canolfan Gyswilt i Gwsmeriaid

Ffôn: 0300 062 5004

Ebost: RPWOnline@gov.wales

Swyddfa Ranbarthol Caerfyrddin

Adeiladau'r Llywodraeth, Teras Picton

Caerfyrddin, SA31 3BT

Ffôn: 0300 062 5004

Ebost: RPWOnline@gov.wales

Swyddfa Ranbarthol Llandrindod

Adeiladau'r Llywodraeth, Spa Road East

Llandrindod LD1 5HA

Ffôn: 0300 062 5004

Ebost: RPWOnline@gov.wales